

A vibrant street scene during a festival. In the foreground, a woman in a purple jacket and blue jeans walks a small dog on a leash, accompanied by two young boys. The street is filled with other pedestrians, including a man in a blue shirt and another in a pink shirt. A blue car is parked on the left, and a white car is further back. The background is decorated with colorful bunting and a large banner that reads "LIVE MUSIC SPORTS 27 AUG FEST". The overall atmosphere is festive and lively.

Gwiriad lechyd Canol Tref Sir Dinbych 2018

Cynnwys

1.	Crynodeb	2
2.	Cefndir	2
3.	Methodoleg	3
4.	Llinell sylfaen	4
5.	'High Street UK2000' [Model prosiect]	7
6.	'Town Centre Signatures' [Model prosiect]	8
7.	Arolwg o Drigolion Sir Ddinbych [Crynodeb]	10
8.	Ffynonellau	11

Atodiad - Arolygon Trefi a Dinasoedd Sir Ddinbych:

Corwen

Dinbych

Llangollen

Prestatyn

Rhuddlan

Y Rhyl

Rhuthun

Llanelwy

Manylion cysylltu:

Cynllunio Strategol a Thai

Cyngor Sir Ddinbych

Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

Ffôn: 01824 706916

E-bost: polisicynllunio@sirddinbych.gov.uk

1. Crynodeb

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r 'Archwiliad Iechyd Canol Trefi' cyntaf i gael ei gynnal yn Sir Ddinbych yn 2018. Gwnaed yr archwiliad iechyd er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r seilwaith, yr arlwy adwerthu a'r gwasanaethau sydd ar gael i drigolion ac ymwelwyr, fel ei gilydd.
- 1.2 Fe'i paratowyd ar sail arweiniad a geir ym 'Mholisi Cynllunio Cymru' (2016) Llywodraeth Cymru a 'Nodyn Cyngor Technegol 4: Manwerthu a Chanol Trefi' (2016). I gyd-fynd â'r adroddiad hwn defnyddiwyd gwaith ymchwil i adwerthu a wnaed gan yr Institute for Place Management (Prifysgol Fetropolitan Manceinion) a data ystadegol a gasglwyd yn fewnol gan Gyngor Sir Ddinbych.
- 1.3 Mae gan Sir Ddinbych amgylchedd adeiledig amrywiol ac atyniadol iawn gyda chyfuniad o drefni arfordirol, gwledig a chymudol. Mae'r lefelau cyflogaeth yn uchel gyda chymorth busnes parhaus yn un o flaenoriaethau'r Cyngor. Yn ogystal ag adwerthu, mae gan dwristiaeth ran holl bwysig i'w chwarae yn yr economi leol. Felly, mae sicrhau bod canol ein trefi yn dal i fod yn hygyrch ac, yn atyniadol, yn holl bwysig i hybu twf economaidd.
- 1.4 Mae'r adroddiad yn dechrau â chyflwyniad byr i'r cefndir cynllunio cyn disgrifio dull gweithredu gwahanol o ddosbarthu canol trefi. Gan ymateb i'r cysyniad o 'arwyddnod canol trefi' sy'n seiliedig ar nifer yr ymwelwyr yn y gorffennol, cyflwynir yr wyth canol tref yn Sir Ddinbych â ffocws ar y cymysgedd presennol o ddefnyddiau'r canolfannau; dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT); ac ystadegau ar hygyrchedd ar drafnidiaeth heblaw am y car, nifer yr ymwelwyr a ffactorau economaidd-gymdeithasol.

2. Cefndir

- 2.1 Gwnaed archwiliad iechyd canol trefi Sir Ddinbych er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r seilwaith, yr arlwy adwerthu a'r gwasanaethau sydd ar gael i drigolion ac ymwelwyr, fel ei gilydd. Mae'n ategu'r gwaith ymchwil ystadegol a wneir yng nghanol trefi'r sir bob blwyddyn. At hynny, bydd yr adroddiad hwn yn dystiolaeth i gefnogi gweithgaredd adfywio ac, yn holl bwysig, yn darparu gwybodaeth ar gyfer llunio'r polisi cynllunio leol ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol nesaf Sir Ddinbych.
- 2.2 Caiff canol trefi bywiog eu nodweddu â bod yn aml-swyddogaethol, h.y. manwerthu, masnachol, hamdden, ac yn darparu gwasanaethau 24 awr y dydd. Mae adeiladau sy'n cael eu cynnal yn dda a mannau agored hygyrch yn gwella canol trefi, a chyfrannant at greu twf economaidd drwy ddenu rhagor o bobl i mewn i'r dref ac, felly, hyrwyddant ymdeimlad o hunaniaeth a lles.

- 2.3 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn datgan sut gall Cynllunio nid yn unig helpu i greu canolfannau adwerthu a masnachol llwyddiannus a chynaliadwy, ond mae hefyd yn sicrhau yr ymdrechir yn barhaus i gynnal y safonau uchel a gyrhaeddwyd. Mae PCC, wedi'i ategu gan Nodyn Cyngor Technegol 4: Manwerthu a Chanol Trefi, yn annog awdurdodau cynllunio lleol i wneud archwiliadau iechyd o ganol trefi yn rheolaidd gan eu bod yn un o'r ffactorau sy'n dangos pa mor effeithiol yw'r polisiau lleol ac effaith datblygiadau cysylltiedig.
- 2.4 Gan gydymffurfio â PCC, mae Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 – 2021 (CDLI) yn adlewyrchu'r egwyddor 'canol y dref yn gyntaf' pan roddir ystyriaeth i leoli datblygiad newydd fel rhan o'r prawf cymalog. Â chefnogaeth polisiau lleol PSE 6 'Economi Adwerthu' a PSE 7, disgrifiodd y Cyngor ei ddull gweithredu drwy ddiffinio'r hierarchaeth adwerthu ar gyfer y sir a rhestru nifer o safleoedd a neilltuwyd yn benodol ar gyfer datblygiadau adwerthu. Gan gydnabod cymeriad aml-swyddogaethol canol trefi, mae polisi lleol PSE 8 yn cynnwys meini prawf a fyddai'n caniatáu ar gyfer datblygiad masnachol ychwanegol.

3. Methodoleg

- 3.1 Mae'r fethodoleg yn seiliedig ar ganllawiau cynllunio cenedlaethol, ymchwil gwyddonol a wnaed o safbwynt datblygu canol trefi, a deunydd darllen o nifer o ffynonellau.
- 3.2 Mae Nodyn Cyngor Technegol 4: Manwerthu a Chanol Trefi (2016), adran 13, yn disgrifio dangosyddion o fywiogrwydd a hyfywedd megis, llif cerddwyr a chyfran yr eiddo lefel stryd sy'n wag, sy'n rhywbeth y dylid ei ystyried wrth gynnal archwiliad iechyd canol trefi. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol y DU newydd gyhoeddi llawlyfr ar adfywio canol trefi sy'n rhoi i ymarferwyr becyn cymorth ar-lein, arweiniad a ffynonellau gwybodaeth pellach.
- 3.3 Fe wnaeth cyfraniadau'r Institute of Place Management ym Mhrifysgol Manceinion i'r prosiect 'High Street UK2020' sbarduno ymchwil pellach i'r cysyniad o 'Arwyddnodau Canol Trefi'. Mae'r dull hwn yn wahanol i ddulliau eraill drwy ei fod yn canolbwyntio ar ddata ar nifer cyfartalog yr ymwelwyr yn hytrach na'i fod yn edrych ar bresenoldeb yr hyn y tybir eu bod yn unedau adwerthu hanfodol mewn tref o faint penodol. Ym Mhennod 6 ceir manylion pellach am arwyddnodau canol trefi.
- 3.4 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys canol trefi darluniedig Corwen, Dinbych, Llangollen, Prestatyn, Rhuddlan, y Rhyl, Rhuthun a Llanelwy. Mae pob un ohonynt yn elwa o ffin canol tref fel y'i diffinnir yn y CDLI ac a welir ar fapiau cynigion y CDLI. Rhaid nodi nas cynhwyswyd Bodelwyddan yn y gwaith hwn oherwydd yr ardal fechan iawn a amgylchynir gan ffin canol y dref – 2 adeilad a saif ar wahân i 5 adeilad arall mewn rhes.

- 3.5 Defnyddiwyd y data a'r technegau canlynol i helpu i lunio'r adroddiad hwn:
- Data ar nifer yr ymwelwyr ym mhob un o'r canol trefi gan fod gan bob un ohonynt o leiaf un peiriant monitro nifer ymwelwyr wrth un o brif feysydd parcio'r dref;
 - Ystadegau a gafwyd gan ONS, Llywodraeth Cymru, Cyfrifiad, ac intern y Cyngor;
 - Data gofodol a gyflwynir yn GIS (MapInfo®);
 - Dadansoddiad SWOT wedi'i gefnogi gan ymchwil blaenorol ac ymweliadau safle;
 - Arolwg o Ganol Trefi Sir Ddinbych – cynhaliwyd arolwg o ganol trefi yn flynyddol er 2007 gyda'r data yn cael ei ddadansoddi yn nifer o gategoriâu megis, cyfraddau unedau gwag;
 - Gweithredu'r cysyniad 'arwyddnod canol trefi' fel y disgrifia'r Institute of Place Management;
 - Data economaidd-gymdeithasol ar gyfer canol trefi unigol yn Sir Ddinbych;
 - Canlyniadau o Arolygon o Breswylwyr Cyngor Sir Ddinbych a gynhaliwyd yn flaenorol; a
 - Gwybodaeth a deunydd hyrwyddo a ddarparwyd gan Adran Gyfathrebu a Marchnata Cyngor Sir Ddinbych.
- 3.6 Gall ansawdd a dibyniaeth ar wybodaeth ystadegol gyfyngu arnoch mewn ymchwil. Mae'r Cyngor fodd bynnag wedi defnyddio'r adnoddau a oedd ar gael i'r eithaf. Er nas cynhaliwyd archwiliadau iechyd canol trefi o'r blaen, roedd yr awdurdod eisoes wedi casglu'r rhan fwyaf o'r data.

4. Llinell sylfaen

- 4.01 Bydd y bennod ganlynol yn rhoi cyflwyniad byr i astudiaethau ac arolygon a wnaed yn benodol i archwilio'r perfformiad adwerthu yn y canol trefi lleol, gan gydnabod ar yr un pryd fod canol trefi iach yn dibynnu ar gymysgedd o ddefnyddiau gwahanol.

4.1 Astudiaeth Adwerthu (Capasiti Adwerthu)

- 4.11 Comisiynodd y Cyngor ddiweddariad o Astudiaeth Capasiti Adwerthu Sir Ddinbych (2013) ac fe'i gwnaed gan Uned Ymchwil Corfforaethol Conwy. Mae fersiwn (newydd) 2018 ar gael ar wefan CSDd. Yn ogystal ag edrych ar batrymau siopa, mae'r ddogfen yn disgrifio'r capasiti adwerthu cyfredol yn y sir gan asesu tebygolrwydd y galw i'r dyfodol. Yn fethodolegol, y prif ffynonellau data oedd Experian (cwmni sy'n arbenigo mewn asesiadau adwerthu, Goad (arolwg Experian o'r galw a'r cyflenwad adwerthu mewn dros 3,000 o drefi) a Mosaic (dosbarthiad defnyddwyr Experian).
- 4.12 Ceir dau brif fath o eitemau defnyddwyr sy'n ffurfio'r sail ar gyfer asesu'r angen a'r galw adwerthu: nwyddau cyfleus a nwyddau cymharol. Nid yw'r rhestr ganlynol yn gyflawn ond mae'n rhoi rhai esiamplau:

- cyfleus: bwyd a diodydd di alcohol, baco, diodydd alcohol, papurau newydd a chyfnodolion a nwyddau tŷ amharhaol;
- cymharol: dillad, esgidiau, dodrefn, taclau tŷ, offer, nwyddau meddygol, gemau a theganau, llyfrau a deunyddiau ysgrifennu, gemwaith ac eiddo personol eraill.

4.13 Mae'r astudiaeth adwerthu yn seiliedig ar Grwpiau Ardaloedd Aelodau (cynrychiolwyr gwleidyddol) Cyngor Sir Ddinbych – grwpiau clwstwr o safbwynt dadansoddi gofodol a phennu ffiniau gofodol.

4.14 Crynodeb o'r asesiad o'r ardal adwerthu:

- Y Rhyl – bodlonir 56.9% o'r galw am nwyddau cyfleus ar gyfer y Rhyl yn y Rhyl a chaiff 17.7% ei fodloni ym Mhrestatyn, tra bo 85% o'r galw am nwyddau cymharol yn cael ei fodloni drwy'r cyflenwad lleol yn y Rhyl a Phrestatyn, dim ond 3.6% a ddaw o Brestatyn;
- Prestatyn – Darlun tebyg i'r Rhyl, mae 80% o'r galw am nwyddau cyfleus yn cael ei fodloni yn y Rhyl a Phrestatyn ac ychydig dan 80% o'r nwyddau cymharol. Mae'r prif ganolfannau cystadleuol o amgylch Caer;
- Elwy – y Rhyl unwaith eto yw'r brif ganolfan adwerthu ar gyfer ardal Elwy, gan ddarparu 32% o'r nwyddau cyfleus a 50.5% o'r nwyddau cymharol. Abergele/ Bae Cinmel a Pharciau Adwerthu Caer yw'r prif gystadleuwyr ar gyfer yr ardal hon;
- Dinbych – Dim ond 43% o'r galw am nwyddau cyfleus sy'n cael ei fodloni'n lleol, gan fod cyfran mor fawr yn teithio i siopau yn y Rhyl, Abergele, Prestatyn a Sir y Fflint. Mae nwyddau cymharol yn dangos bod cyfran fawr yn cael ei wario yng Nghaer, Sir y Fflint, Bae Colwyn a Wrecsam, sy'n dangos cyflenwad gwan yn lleol;
- Rhuthun – Ceir digon o ddarpariaeth yn lleol i fodloni 38% o'r galw am nwyddau cyfleus, sy'n golygu bod llawer yn teithio i Wrecsam, yr Wyddgrug a Glannau Dyfrdwy. Dim ond 3.9% o'r galw am nwyddau cymharol sy'n cael ei fodloni yn Rhuthun, ac 8.5% yn unig sy'n cael ei fodloni yn Sir Ddinbych. Caer, Wrecsam a'r Wyddgrug ymysg eraill sy'n bodloni'r galw hwn ar hyn o bryd; a
- Dyffryn Dyfrdwy – Y galw am nwyddau cyfleus sy'n cael ei fodloni'n lleol yw 33.1%. Wrecsam, Rhuthun a Sir y Fflint yw'r canolfannau cystadleuol. Mae'r galw am nwyddau cymharol eto yn cael ei fodloni yn Wrecsam, Caer a Sir y Fflint gydag ond 3% yn Llangollen.

4.15 Mae'r tri thuedd canlynol yn debygol o ddylanwadu ar y galw i'r dyfodol:

- Twf Poblogaeth – Disgwylir i bob ardal weld twf yn y boblogaeth, yn enwedig ardal Elwy lle caiff y Safle Strategol Allweddol ei ddatblygu â thai ar gyfer oddeutu 5,000 o drigolion newydd neu gynnydd o 33%;
- Gwerthiant Ar-lein – Bydd gwerthiannau ar-lein yn parhau i gynyddu, er y bydd hynny ar raddfa arafach na dros y blynyddoedd diwethaf. Adwerthu nwyddau cyfleus + 10 mlynedd = dirywiad o 1.5% oherwydd gwerthiant ar-lein, a nwyddau cymharol + 10 mlynedd = dirywiad o 2.9% oherwydd gwerthiant ar-lein; a

- Tueddiadau Twristiaeth – Gwelwyd cynnydd o 20% o dwristiaid i'r sir rhwng 2004 a 2016, ond mae twristiaeth yn sector anwadal, sy'n anodd iawn ei ragamcanu ac, felly, mae'r galw adwerthu wedi cael ei gadw'n wastad wrth edrych 10 mlynedd i'r dyfodol.

4.16 Tebygolrwydd y galw adwerthu i'r dyfodol yn y Sir (nwyddau cyfleus/cymharol):


- Y Sir Ddinbych Arfordirol - Ceir gorgyflenwad bychan o unedau adwerthu cyfleus ond o ystyried y twf posibl yn y boblogaeth dros y 10 mlynedd nesaf mae yna botensial ar gyfer adwerthu ychwanegol. Oherwydd y gorgyflenwad o unedau adwerthu cymharol, ar sail y boblogaeth bresennol a'r rhagolygon 10 mlynedd, ni ragwelir bod gofyn cynyddu nifer yr unedau adwerthu cymharol, ar ôl i'r holl ddatblygiadau arfaethedig ddigwydd; a
- Y Sir Ddinbych Wledig – Roedd lle i gynyddu unedau adwerthu cyfleus yn y Sir Ddinbych Wledig, fodd bynnag, mae'r Aldi diweddar yn Ninbych wedi bodloni'r galw hwn, ac nid yw'r rhagolwg yn rhagweld cynnydd yn y galw dros y 10 mlynedd nesaf. Nid yw Dinbych a Rhuthun yn perfformio i'w llawn botensial, a dros y 10 mlynedd nesaf ceir capasiti sylweddol mewn gofod cymharol, i helpu i wasanaethu'r boblogaeth yn well yn y sir.

4.2 Cyngor Sir Ddinbych: Arolwg Blynnyddol o Ganol Trefi

4.21 Mae'r Cyngor yn cynnal arolygon o ganol trefi bob blwyddyn, gan gynnwys yr wyth canolfan a gynhwysir yn yr archwiliad iechyd hwn. Eu diben yw mesur faint o unedau, gwasanaethau, ac unedau gwag sydd ym mhob un ohonynt; gan adnabod tueddiadau a chefnogi ymdrechion adfywio a phenderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

4.22 Cynhelir Arolwg o Ganol Trefi bob blwyddyn, i fesur faint o unedau, a pha fath, sydd i'w cael ym mhob canol tref. Cofnodir a gaiff yr uned ei defnyddio ar gyfer adwerthu cymharol, adwerthu cyfleus, gwasanaethau, defnydd preswyl neu arall, ynteu a yw'n wag.

Ffigur 1 Nifer yr unedau cymharol a cyfleus yng nghanol trefi'r arolwg (2017)




4.23 Defnyddiwyd canlyniadau arolygon blaenorol ar gyfer yr asesiad o ganol trefi unigol yn yr atodiad.

5. 'High Street UK2000' [Model prosiect]

- 5.1 Roedd y prosiect hwn yn ymwneud â'r effaith yr oedd newidiadau mewn adwerthu yn ei chael ar ganol trefi a dinasoedd yn y DU. Cynhaliwyd y prosiect gan yr Institute for Place Management ym Mhrifysgol Fetropolitan Manceinion, a'r amcan oedd nodi'r blaenoriaethau a gâi'r effaith fwyaf ac y mae gan sefydliadau lleol fwyaf o reolaeth drostynt – gan ganolbwyntio adnoddau cynyddol brin arnynt. Gan ddefnyddio gwybodaeth wyddonol, dewiswyd 10 canol tref i brofi'r 25 blaenoriaeth a ddewiswyd, gan gynnwys Wrecsam.
- 5.2 Dewisodd y sefydliad y 25 blaenoriaeth drwy ddefnyddio dull Delphi, sy'n seiliedig ar gyfyngu nifer y blaenoriaethau drwy gyfrwng holiaduron dienw, cyfuno'r ymatebion a dod i gonsensws ymysg cyfranogwyr o gylchoedd ymgynghori pellach. Roedd y panel o arbenigwyr ac arbrofwyr yn cynnwys rheolwyr canol trefi, cynrychiolwyr adwerthu, grwpiau diddordeb a swyddogion y Cyngor.
- 5.3 Yn seiliedig ar yr ymchwil ac ar farn y cyfranogwyr, cafodd cyfanswm o 201 o ffactorau eu mapio ar graff a oedd wedi'i rannu'n bedwar cwadrant dan y teitlau 'Ddim o werth', 'Gwnewch o!', 'Anghofiwch o', a 'Rhaid i chi fyw gydag o'. Gweler ffigur 2.

Ffigur 2 'High Street UK 2020' [Model prosiect]



'Ddim o werth' 'Not worth it'	Maent yn cynrychioli ffactorau llai dylanwadol megis yr hinsawdd wleidyddol a gweinyddiaeth gyhoeddus.
'Gwnewch o' 'Get on with it!'	Yn ôl y cyfranogwyr, gallai rhanddeiliaid y stryd fawr ddylanwadu ar y ffactorau hyn, a'r rhain sy'n cael y dylanwad mwyaf ar fywiogrwydd a hyfywedd y stryd fawr.
'Anghofiwch o' 'Forget it'	Y ffactorau 'Anghofiwch o' yw'r rhai, er eu bod yn gyraeddadwy, nad ydynt yn gysylltiedig â gwella bywiogrwydd a hyfywedd; ac ni cheir llawer o dystiolaeth empirig i gyfiawnhau gweithredu yn y meysydd hyn.
'Rhaid i chi fyw gydag o' 'Live with it'	Maent yn bwysig o ran dylanwadu ar fywiogrwydd a hyfywedd y stryd fawr ond yn wahanol i 'Gwnewch o!' mae'r rhain y tu allan i allu'r Stryd Fawr i ddylanwadu'n uniongyrchol.

Ffynhonnell: The Institute for Place Management, 2014. Blaenoriaethau High Street UK 2020

5.4 Yn gryno, dyma'r 25 ffactor / blaenoriaeth y dylai ymdrechion adfywio canol trefi ganolbwyntio arnynt:

Oriau gweithgaredd (oriau agor, economi gyda'r nos)	Rhwydweithio a chreu partneriaeth â'r Cyngor	Gofod hamdden (mannau agored)
Edrychiad (gweledol, glendid)	Amrywiaeth (cymysgedd tenantiaid, fformatau amgen)	Rhwystrau rhag mynediad (adwerthwyr i gamu i'r farchnad)
Adwerthwyr (arlwy, cynrychiolaeth)	Cerdded (ardal i gerddwyr yn unig/ llif, teithiau cysylltiedig)	Siopau cadwyn yn erbyn siopau annibynnol
Gweledigaeth a strategaeth (arweinyddiaeth, cydweithrediad)	Adloniant a hamdden	Diogelwch / troseddu
Profiad (ansawdd, boddhad, y cyfarwydd)	Atynfa	Bywadwy (cysylltedd, swyddogaeth amryfal/ unigol)
Rheoli (canolfan, rheoli lle)	Sicrhad lle (ymddiriedaeth adwerthu, awyrgylch)	Y gallu i addasu (hyblygrwydd, ymrannu, maint)
Nwyddau (eu hansawdd a'r dewis)	Hygyrchedd	Datblygu siopau (uwchraddio, ailfodelu)
Yr angenrheidiol (maes parcio, amwynderau, cyfleusterau)	Marchnata lle	Cymharol/ cyfleus
Siopau angori		

Ffynhonnell: High Street UK 2020 – Identifying factors that influence vitality and viability


6. 'Town Centre Signatures' [Model prosiect]

- 6.1 Y mesur o lwyddiant (neu fethiant) canol trefi a gydnabyddir yn fwyaf eang yw faint o ofod llawr sy'n cael ei feddiannu gan amryfal adwerthwyr neu bresenoldeb unedau arbenigedd yn y canol. Er hynny, nid unedau adwerthu'n unig sy'n eu hail-fywiogi oherwydd wrth i siopau cadwyn symud allan o unedau gall y rhain gael eu meddiannu gan wasanaethau,

defnydd preswyl, neu unrhyw ddefnydd 'dros dro' arall. Dylai'r ffocws felly fod ar gefnogi cymeriad mwy aml-swyddogaeth canol trefi.

- 6.2 Cyflwynodd Institute for Place Management ffordd newydd o ddosbarthu canol trefi, ffordd a oedd yn debyg iawn i ddull prosiect High Street UK 2020. Mae'r ffordd hon yn seiliedig ar gasglu ffigurau nifer ymwelwyr, cyfuno cyfansymiau misol, a llunio graffiau bob blwyddyn. Er nad hon yw'r unig ffordd o ddosbarthu canol trefi, mantais y dull hwn yw pa mor hawdd yw casglu'r data a llunio graffiau nifer ymwelwyr.
- 6.3 Mae gwaith ymchwil wedi arwain at enwi pedwar arwyddnod (gweler ffigur 3): cymharol, gwyliau, arbenigedd, ac aml-swyddogaethol. Ceir rhai canol trefi y gellir eu priodoli'n hawdd i un o'r dosbarthiadau hyn, tra'i bod yn anodd paru eraill. Y rheswm am hyn yw oherwydd eu bod yn rhannu nodweddion tebyg ond bod iddynt batrymau nifer ymwelwyr unigryw.

Ffigur 3 Arwyddnodau Canol Trefi (Graffiau)



Cymharol / Comparison	Mae canolfannau siopa cymharol yn tueddu i fod yn drefi a dinasoedd mwy ac un dynodydd allweddol yw mai Rhagfyr yw uchafbwynt eu nifer ymwelwyr sy'n cyd-fynd â'r Nadolig.
Gwyliau / Holiday	Mae trefi gwyliau yn fwy prysur dros fisoedd yr haf ac mae nifer yr ymwelwyr yn is yn y gaeaf.
Arbenigedd / Speciality	Mae'n ymddangos bod canolfannau arbenigedd yn 'hybrid' rhwng cymharol a gwyliau.

Aml-swyddogaethol Multifunctional Mae trefi aml-swyddogaethol yn tueddu i gael proffil mwy gwastad gydol y flwyddyn.

Ffynhonnell: Mumford, Parker, Ntounis and Dargan (2017) - A clustering study to verify four distinct monthly footfall signatures: a classification for UK retail centres; Technical Report

6.4 Manteision defnyddio'r cysyniad ydy (1) Bydd defnyddio'r dosbarthiadau cymharol, gwyliau, arbenigedd ac aml-swyddogaethol newydd yn iaith polisi a chanllawiau yn cyflymu'r broses o fabwysiadu dosbarthiadau a mesurau perfformiad seiliedig ar weithgareddau ar draws y proffesiwn cynllunio, y sector adfywio trefol a llywodraeth leol, a (2) Bydd annog lleoliadau i fesur nifer yr ymwelwyr a sefydlu eu harwyddnod yn arwain at strategaethau marchnata a rheoli lleoedd mwy realistig ac effeithiol.

6.5 Gan fod y Cyngor yn casglu data ar nifer yr ymwelwyr yng nghanol trefi, mae'r Archwiliad Iechyd Canol Trefi yn gweithredu'r dosbarthiad 'arwyddnod canol trefi'. Gweler Atodiad am fanylion.

7. Arolwg o Drigolion Sir Ddinbych [Crynodeb]

7.1 Cymerwyd y data canlynol o Arolwg o Drigolion Cyngor Sir Ddinbych 2015, a'i nod yw darparu barn trigolion ar faterion ehangach sy'n effeithio ar fywiogrwydd trefi lleol megis, diogelwch cymunedol a hygyrchedd.

7.2 Lles

- Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi â'ch bywyd? Sgôr gyfartalog: 7.46/10;
- Yn gyffredinol, pa mor hapus oeddech chi'n teimlo ddoe? Sgôr gyfartalog: 7.46/10;
- Dywedodd 70% nad oeddent byth bron yn teimlo eu bod wedi'u hynysu oddi wrth bobl eraill; a
- Dywedodd 69% nad oeddent byth bron yn teimlo nad oedd ganddynt gwmni.

7.3 Eich ardal leol

- Roedd 81% yn hapus â'u hardal leol fel lle i fyw;
- Teimlai 54% na fu dim newid mawr; a
- Teimlai 34% fod eu hardal leol wedi gwaethygu yn y 12 mis blaenorol.

7.4 Strydoedd Glân a Thaclus

- Roedd 68% yn fodlon â lefelau glendid y strydoedd yn eu hardal leol yn gyffredinol; ac
- Roedd 46% yn fodlon pan ofynnwyd iddynt yn benodol am faw cŵn.
- Yn gyffredinol, codwyd pryderon am edrychiad/cyflwr ffisegol adeiladau a blaen siopau a sbwriel sigarêts.

7.5 Gwella eich ffyrdd

Mae cwmni annibynnol yn sganio arwynebau'r holl ffyrdd yng Nghymru ac yn cynhyrchu mesurau o ansawdd y ffyrdd ym mhob ardal awdurdod lleol. Mae ffyrdd Sir Ddinbych wedi bod yn gwella yn y blynyddoedd

diwethaf ac mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod 71% o'r ffyrdd dosbarth A, 64% o'r ffyrdd B a 53% o'r ffyrdd bach mewn cyflwr da yn gyffredinol. Er hynny, 57% yn unig oedd yn fodlon â gwaith cynnal y ffyrdd, 54% mewn trefi a 39% yn y wlad.

7.6 Canol trefi

- Roedd dwy ran o dair yn ymweld â chanol y dref agosaf mwy nag unwaith yr wythnos;
- Roedd 59% yn hapus â'u canol trefi yn gyffredinol;
- Roedd 79% yn fodlon â'r dewis o wasanaethau a 50% â'r dewis o siopau;
- Roedd llai na hanner yn hapus â'r llefydd parcio oedd ar gael a'r pris ac roedd 42% yn fodlon â lefel y tagfeydd traffig;
- 12% yn unig sy'n fodlon â'r cyfleoedd am swyddi sydd ar gael; a
- Roedd 16% yn hapus â'r adloniant ar gyfer pobl ifanc.

7.7 Diogelwch Cymunedol

- Teimlai 24% yn ddiogel ar ôl iddi nosi;
- Teimlai 4% nad oeddent yn ddiogel yn ystod y dydd; a
- Teimlai 5% nad oeddent yn ddiogel ar gludiant cyhoeddus.

7.8 Cafodd y canlyniadau canlynol eu tynnu o arolwg busnes a gynhaliwyd wrth lunio Uwchgynllun y Rhyl. Roedd Busnesau Lleol o'r farn

- Bod angen arallgyfeirio'r stryd fawr;
- Bod manteision y dref yn cynnwys: twristiaeth, lleoliad, cysylltiadau trafnidiaeth; a
- Anfanteision y dref: siopau gwag, amgyffredion negyddol a dirywiad hirdymor.

8. Ffynonellau

Ystadegau troseddu, 2018. Gwefan yr heddlu. Ar gael yn: <https://www.police.uk/>

Cyngor Sir Ddinbych, 2013. Cynllun Datblygu Lleol 2006 - 2021. Ar gael yn: www.denbighshire.gov.uk/ldp

Cyngor Sir Ddinbych, 2018. Astudiaeth Adwerthu 2018 (Capasiti Adwerthu). Ar gael yn: www.denbighshire.gov.uk/ldp

High Street UK 2020, 2017, Project summary.

Ar gael yn: www.placemanagement.org/special-interest-groups/managing-places/town-and-city-centresdowntowns/town-centre-policy-and-research/hsuk2020/

Mumford, Parker, Ntounis and Dargan, 2017. A clustering study to verify four distinct monthly footfall signatures: a classification for UK retail centres Technical Report 1 (Version 5). Ar gael yn:

<http://placemanagement.org/media/90636/monthlysignatureclusteringv3.pdf>

Parker, Ntounis, Quin and Millington 2017. High Street UK 2020 Project Report: Identifying factors that influence vitality and viability.

Ar gael yn: www.researchgate.net/publication/298921227

Llywodraeth Cymru, 2018. Polisi Cynllunio Cymru – Rhifyn 10.

Ar gael yn: <https://beta.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-12/planning-policy-wales-edition-10.pdf>

Llywodraeth Cymru, 2016. Nodyn Cyngor Technegol 4 'Manwerthu a Chanol


Trefi. Ar gael yn: gov.wales/docs/desh/policy/161118technical-advice-note-4-en.pdf

Corwen

Corwen - Map o ganol y dref

Cyflwyniad

Tref fechan yn Nyffryn Dyfrdwy ydy Corwen, ac fe saif islaw mynyddoedd y Berwyn. Roedd poblogaeth amcangyfrifedig yr ardal yn 2,401 o bobl ar 30ain Mehefin 2017. Nodweddir yr economi leol yn bennaf gan fusnesau gweithgynhyrchu, amaethyddiaeth a thwristiaeth.



Ystadegau economaidd-gymdeithasol

- Roedd nifer y bobl 3 oed a drosodd a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn yr ardal yn 2011 yn oddeutu 1,080. Mae hyn yn cyfateb i 47.8% o'r boblogaeth 3 oed a drosodd.
- Mae canran y bobl oedran gweithio sy'n hawlio budd-daliadau yn 10.9% ((Tach 2016 (Chtr)).
- Adroddodd oddeutu 80% o'r ymatebwyr i Gyfrifiad 2011 yn yr ardal nad oedd eu hiechyd yn cyfyngu ar eu gweithgareddau dydd i ddydd.

Nifer yr Ymwelwyr Misol ac Arwyddnod y Dref

Arwyddnod: Gwyliau;


Beth mae hyn yn ei olygu: Ffocws ar arlwy dwristiaeth (byrdymor a hirdymor);

Anchor: tirlun, cyfeiriadau hanesyddol at Owain Glyndŵr;

Dylai'r strategaethau ganolbwyntio ar ddenu ymwelwyr heb esgeuluso angen trigolion yr ardal.

Figur: Nifer cyfartalog misol yr ymwelwyr fesul mis (2016 & 2017)

Nifer cyfartalog yr ymwelwyr fesul mis



Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd, Bygythiadau (acronym: SWOT)

Defnyddir dadansoddiadau SWOT i ganfod cryfderau, gwendidau, cyfleoedd, bygythiadau mewn busnes neu sefydliad, gan gynnwys cydran ofodol, gyda'r nod o sicrhau newid neu dwf.

Cryfderau

- Dewis da o siopau bach yn y dref;
- Arwyddion a gwybodaeth i dwristiaid;
- Llefydd parcio am ddim yng nghanol y dref; a
- Chysylltiadau rheilffordd treftadaeth ag aneddiadau i gyfeiriad Llangollen yn Nyffryn Dyfrdwy.

Gwendidau

- Lefel gyson o eiddo gwag yng nghanol y dref;
- Mae priffordd yr A5 yn rhedeg drwy ganol y dref gan achosi lefelau uchel o sŵn a llygredd;
- Byddai adeiladau unigol yn elwa o gael eu huwchraddio/ peintio; a
- Phrinder llefydd aros.

Cyfleoedd

- Hybu cyfleoedd cerdded mewn amgylchedd o ansawdd uchel;
- Gwellu'r arlwy dwristiaeth i ymwelwyr sy'n cyrraedd ar y rheilffordd treftadaeth; a
- Darparu llefydd aros o ansawdd uchel yn y dref.


Bygythiadau

- Ni ddylai'r ffocws ar dwristiaeth gael effaith negyddol ar yr arlwy adwerthu i bobl leol; a
- Llefydd parcio ceir yn brin

Dadansoddiad Adwerthu

Cofnododd yr arolwg blyneddol gyfanswm o 46 o unedau yng nghanol tref Corwen, o'r rhain mae 8 o unedau (17%) at ddefnydd cymharol (adwerthu), 7 o unedau (15%) at ddefnydd cyfleus (adwerthu), 12 o unedau (26%) at ddefnydd gwasanaethau, 4 uned (9%) at ddefnydd preswyl, ac mae 11 uned (24%) yn wag.

Corwen Rhaniad Manwerthu Canol y Dref




Dadansoddiad Adwerthu (yn parhau)

Corwen yw'r dref â'r ganran uchaf o unedau gwag yng nghanol y dref (23.9%) yn Sir Ddinbych, wedyn y Rhyl ar 20.6%. Er bod y lefel yn gymharol isel mewn nifer absoliwt, ceir cydbwysedd rhwng defnyddiau cymharol (8 uned) a defnydd cyfleus (7 uned) yng Nghorwen.

Unedau gwag

Er bod y lefel unedau gwag yn uchel, un eiddo rhydd-ddaliad sydd ar gael ar werth, nid oes dim un ar gael ar brydles, ac nid oes yr un wedi cael ei werthu na'i brydlesu yn y chwarter diwethaf, yn ôl adroddiad gan CoStar. Mae hyn yn dangos bod angen rhoi hwb i'r farchnad eiddo masnachol yng Nghorwen.

Ffigur: Unedau Gwag Corwen




Hygyrchedd

Gwasanaethau bysys sy'n rhedeg drwy ganol y dref: **6**;
Arosfannau bysys o fewn pellter cerdded: **11**

Bydd y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn cael ei ymestyn gyda'r nod o agor llwybr beicio newydd o Gaer / Wrecsam drwy Gorwen i gyfeiriad Gorllewin Cymru. Ar ôl ei gwblhau, caiff ei alw'n 'Llwybr 85'.

Nifer y meysydd parcio ger canol y dref: **3**;
Nifer y mannau parcio i geir: **178**




Troseddu

Corwen – adroddwyd am 4 trosedd ym mis Medi 2018

Ffynhonnell: police.uk;
cyrchwyd 14.11.2018


Mae'r ffigur hwn yn darparu trosolwg o'r mathau o droseddau yr adroddwyd amdanynt yn Ninbych yn y 12 mis o Hydref 2017 tan fis Medi 2018. Mae'n amlwg bod nifer y troseddau yr adroddwyd amdanynt sy'n ymwneud â 'thrais a throseddau rhyw' yn llawer uwch na phob math arall o droseddau.

Cymhariaeth o'r mathau o drosedd yn yr ardal hon rhwng Hydref 2017 a Medi 2018



Ffynhonnell: www.police.uk; cyrchwyd: 14.11.2018

Cymhariaeth o'r canlyniadau yn yr ardal hon rhwng Hydref 2017 a Medi 2018



Ffynhonnell: police.uk; cyrchwyd 14.11.2018

Mae'r ffigur hwn ganlyniad ymchwiliadau i droseddu yn Ninbych rhwng mis Hydref 2017 a Medi 2018. Gyda'r rhan fwyaf o achosion mae'r ymchwiliad yn mynd rhagddo neu ni fydd camau pellach yn cael eu cymryd yn eu herbyn. Bu'n rhaid i'r heddlu ddelio â 6% o'r troseddwr.

Beth ddylid canolbwyntio arno ar gyfer Corwen?

Gan fod nifer yr ymwelwyr yn pwyntio at arwyddnod 'gwyliau' mae'n bwysig canolbwyntio ar wasanaethau'r ymwelwyr a ddaw i Gorwen (heb esgeuluso anghenion trigolion lleol) drwy:

- Leihau nifer yr eiddo gwag;
- Canolbwyntio ar wella'r amser ymdroi yng nghanol y dref drwy wella'r arlwy gweithgareddau hamdden;
- Gwella ansawdd ac amrywiaeth lletyau; a
- Chynyddu nifer yr ymwelwyr sy'n cyrraedd gorsaf Corwen.

Manylion cysylltu:

Cynllunio Strategol a Thai
Cyngor Sir Ddinbych
Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
Caledfryn, Dinbych
Ffôn: 01824 706916
E-bost: polisicynllunio@sirddinbych.gov.uk
Gwefan: www.sirddinbych.gov.uk

Dinbych

Dinbych - Map o ganol y dref

Cyflwyniad

Tref farchnad hanesyddol yn Nyffryn Clwyd yw Dinbych. Roedd poblogaeth amcangyfrifedig yr ardal yn 9,780 o bobl ar 30ain Mehefin 2017. Ymysg prif atyniadau'r dref y mae Castell Dinbych, amgueddfa Dinbych yn yr hen Lys Ynadon, a nifer o adeiladau hanesyddol yng nghanol y dref ac o'i chwmpas.

Ystadegau economaidd-gymdeithasol


- Roedd nifer y bobl 3 oed a drosodd a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn yr ardal yn 2011 yn oddeutu 3,410. Mae hyn yn cyfateb i 36.2% o'r boblogaeth 3 oed a drosodd.
- Mae canran y bobl oedran gweithio sy'n hawlio budd-daliadau yn 13.6% ((Tach 2016 (Chtr)).
- Adroddodd oddeutu 79.3% o'r ymatebwyr i Gyfrifiad 2011 yn yr ardal nad oedd eu hiechyd yn cyfyngu ar eu gweithgareddau dydd i ddydd.

Nifer yr Ymwelwyr Misol ac Arwyddnod y Dref

Arwyddnod: Aml-swyddogaethol;


Beth mae hyn yn ei olygu: Mae'n cynnig cymysgedd cyfleus o adwerthu a gwasanaethau, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar y gymuned leol a'r dalgylch;
Angor: Cymysgedd o weithgareddau, gan ganolbwyntio ar waith, adwerthu, hamdden ayb;

Dylai'r strategaethau ganolbwyntio ar alluogi teithiau amlbwyrpas i drigolion, gwella lletyau i dwristiaid a hybu amgylchedd adeiledig o ansawdd.



Figur: Nifer cyfartalog misol yr ymwelwyr fesul mis (2016 & 2017)

Nifer cyfartalog yr ymwelwyr fesul mis



Nifer cyfartalog misol yr ymwelwyr â'r 8 canol tref

Nifer cyfartalog misol yr ymwelwyr â chanol tref Dinbych

Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd, Bygythiadau (acronym: SWOT)

Defnyddir dadansoddiadau SWOT i ganfod cryfderau, gwendidau, cyfleoedd, bygythiadau mewn busnes neu sefydliad, gan gynnwys cydran ofodol, gyda'r nod o sicrhau newid neu dwf.

Cryfderau

- Tirlun a lleoliad y dref;
- Asedau amgylchedd hanesyddol megis, Castell Dinbych;
- Adwerthwyr annibynnol;
- Canol tref cywasgedig; a
- Swyddfeydd y Cyngor Sir yn y dref.

Gwendidau

- Tagfeydd traffig yng nghanol y dref ar adegau prysur;
- Diffyg bwytai a lletyau; a
- Lefelau mawr o amddifadedd mewn rhannau o'r dref.

Cyfleoedd

- Gwellu'r arlwy nwyddau cyfleus yng nghanol y dref;
- Gwellu'r mesurau rheoli traffig ar hyd y Stryd Fawr a Stryd y Dyffryn; a
- Gwellu'r arwyddion ar gyfer safleoedd hanesyddol.


Bygythiadau

- Llygredd aer a sŵn yn cael effaith andwyol ar atynfa canol y dref; a
- Cwsmeriaid yn cael eu dargyfeirio tuag at y parc adwerthu newydd y tu allan i ganol y dref.

Dadansoddiad Adwerthu

Cofnododd yr arolwg blynyddol gyfanswm o 104 o unedau yng nghanol tref Dinbych, o'r rhain mae 26 o unedau (24%) at ddefnydd cymharol (adwerthu), 7 o unedau (6.4%) at ddefnydd cyfleus (adwerthu), 41 o unedau (37%) at ddefnydd gwasanaethau, 11 o unedau (10%) at ddefnydd preswyl, ac mae 16 o unedau (15%) yn wag.

Denbigh Rhaniad Manwerthu Canol y Dref



Eiddo gwag

Mae tri eiddo rhydd-ddaliad wedi'i werthu yn y flwyddyn diwethaf, ac mae 6 arall ar werth, y pris cyfartalog am droedfedd sgwâr ydy £97. Gwerthwyd dau eiddo ar brydles yn y flwyddyn diwethaf ac mae yna'n dal bedwar ar y farchnad, gyda phris cyfartalog o £13.88 y droedfedd sgwâr. Mae'r amser y mae eiddo ar y farchnad yn amrywio o 1000 o ddyddiau, i ond 15 diwrnod.



Hygyrchedd

Gwasanaethau bysys sy'n rhedeg drwy ganol y dref: **9**;
Arosfannau bysys o fewn pellter cerdded: **5**

Ni cheir ar hyn o bryd ddim Llwybrau Beicio Cenedlaethol sy'n cysylltu Dinbych â'r ardaloedd o'i hamgylch.

Nifer y meysydd parcio ger canol y dref: **7**;
Nifer y llefydd i geir: **404**

Ffigur: Unedau gwag Dinbych




Troseddu

Dinbych – adroddwyd am 86 o droseddau ym mis Medi 2018

Ffynhonnell: police.uk;
cyrchwyd 14.11.2018


Mae'r ffigur hwn yn darparu trosolwg o'r mathau o droseddau yr adroddwyd amdanynt yn Ninbych yn y 12 mis rhwng Hydref 2017 a mis Medi 2018. Mae'n amlwg bod nifer y troseddau yr adroddwyd amdanynt sy'n ymwneud â 'thrais a throseddau rhyw' ac 'ymddygiad gwrth-gymdeithasol' yn llawer uwch na phob math arall o droseddau.

Cymhariaeth o'r mathau o drosedd yn yr ardal hon rhwng Hydref 2017 a Medi 2018



Ffynhonnell: police.uk; cyrchwyd 14.11.2018

Cymhariaeth o'r canlyniadau yn yr ardal hon rhwng Hydref 2017 a Medi 2018



Ffynhonnell: police.uk; cyrchwyd 14.11.2018

Mae'r ffigur hwn ganlyniad ymchwiliadau i droseddu yn Ninbych ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref 2017 a mis Medi 2018. Gyda'r rhan fwyaf o achosion mae'r ymchwiliad yn mynd rhagddo neu ni fydd camau pellach yn cael eu cymryd yn eu herbyn. Dim ond 6% o'r troseddau yr adroddwyd amdanynt a gyrhaeddodd y llys.

Beth ddylid canolbwyntio arno ar gyfer Dinbych?

- Gwasanaethu'r bobl leol gyda chynnydd yn nifer y siopau cyfleustra;
- Gwella profiadau ymwelwyr er enghraifft, gwella'r arlwy lletyau; a
- Gwella llif traffig yng nghanol y dref.

Manylion cysylltu:

Cynllunio Strategol a Thai
 Cyngor Sir Ddinbych
 Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
 Caledfryn, Dinbych
 Ffôn: 01824 706916
 E-bost: polisicynllunio@sirddinbych.gov.uk
 Gwefan: www.sirddinbych.gov.uk






Llangollen

Cyflwyniad

Mae Llangollen yn dref boblogaidd â thwristiaid a saif yn ne-ddwyrain Sir Ddinbych. Roedd poblogaeth amcangyfrifedig yr ardal yn 4,100 ar 30ain Mehefin 2017. Mae Llangollen yn adnabyddus am yr Eisteddfod Ryngwladol flynyddol a gynhelir ym mis Gorffennaf. Ymysg yr atyniadau eraill i dwristiaid y mae Rheilffordd Treftadaeth Llangollen i Gorwen a Dyfrffordd a Chamlas Pontcysyllte sy'n un o Safleoedd Treftadaeth Byd UNESCO.

Llangollen - Map o ganol y dref



Ystadegau economaidd-gymdeithasol

- Roedd nifer y bobl 3 oed a drosodd a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn yr ardal yn 2011 yn oddeutu 799. Mae hyn yn cyfateb i 20.1% o'r boblogaeth 3 oed a drosodd.
- Mae canran y bobl oedran gweithio sy'n hawlio budd-daliadau yn 8.8% ((Tach 2016 (Chtr)).
- Adroddodd oddeutu 76.6% o'r ymatebwyr i Gyfrifiad 2011 yn yr ardal nad oedd eu hiechyd yn cyfyngu ar eu gweithgareddau dydd i ddydd.

Nifer yr Ymwelwyr Misol ac Arwyddnod y Dref

Arwyddnod: Gwyliau;


Beth mae hyn yn ei olygu: Cynigia brofiadau i dwristiaid ac ymwelwyr dydd;

Angor: Amgylchedd naturiol a hanesyddol (e.e. Dinas Bran, afon Dyfrdwy, Camlas Llangollen);

Dylai'r strategaethau ganolbwyntio ar ddenu ymwelwyr gydol y flwyddyn.

Ffigur: Nifer cyfartalog misol yr ymwelwyr fesul mis (2016 & 2017)

Nifer cyfartalog yr ymwelwyr fesul mis



Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd, Bygythiadau (acronym: SWOT)

Defnyddir dadansoddiadau SWOT i ganfod cryfderau, gwendidau, cyfleoedd, bygythiadau mewn busnes neu sefydliad, gan gynnwys cydran ofodol, gyda'r nod o sicrhau newid neu dwf.

Cryfderau

- Canolfan Groeso yng nghanol y dref;
- Yn cynnal yr Eisteddfod Ryngwladol flynyddol;
- Ychydig iawn o eiddo masnachol gwag a geir yng nghanol y dref; a
- Lleoliad y dref a'r tirlun o'i hamgylch.

Gwendidau

- Gallai ffrynt siopau unigol elwa o waith i'w gwella;
- Llefydd parcio yn brin yn y dref ac o'i hamgylch; a
- Lletyau o ansawdd yn brin.

Cyfleoedd

- Cynyddu niferoedd twristiaid ym misoedd y Gaeaf; a
- Gwella'r cyfleoedd i gerdded a beicio i drigolion ac ymwelwyr;


Bygythiadau

- Gallai'r ffocws ar anghenion twristiaid esgeuluso'r ddarpariaeth adwerthu a gwasanaethau i'r trigolion lleol yn yr ardal.

Dadansoddiad Adwerthu

Cofnododd yr arolwg blynyddol gyfanswm o 123 o unedau yng nghanol tref Llangollen, o'r rhain mae 42 o unedau (30%) at ddefnydd cymharol (adwerthu), 8 o unedau (6%) at ddefnydd cyfleur (adwerthu), 43 o unedau (30%) at ddefnydd gwasanaethau, 24 o unedau (17%) at ddefnydd preswyl, ac mae 6 uned (4%) yn wag. Canol tref Llangollen sydd â'r ganran isaf o unedau gwag yn y sir.


Llangollen Rhaniad Manwerthu Canol y Dref



Eiddo gwag

Gwerthwyd un uned rhydd-ddaliad yn Llangollen am £113 y droedfedd sgwâr. Mae dau eiddo rhydd-ddaliad pellach ar gael i'w prynu am brisiau nas datgelir a'r amser cyfartalog ar y farchnad yw 259 diwrnod. Mae dau eiddo ar gael ar brydles a'r pris cyfartalog y droedfedd sgwâr ydy £13.24.

Ffigur: Unedau Gwag Llangollen




Accessibility

Gwasanaethau bysys sy'n rhedeg drwy ganol y dref: **9**; Arosfannau bysys o fewn pellter cerdded: **10**

Bydd y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn cael ei ymestyn gyda'r nod o agor llwybr beicio newydd o Gaer / Wrecsam drwy Gorwen i gyfeiriad Gorllewin Cymru. Fe'i gelwir yn 'Llwybr 85' ar ôl ei gwblhau. Ceir cynlluniau pellach i integreiddio Llangollen i 'Llwybr 84', a fydd yn cysylltu'r Rhyl â Chroesoswallt.

Nifer y meysydd parcio ger canol y dref: **6**; Nifer y llefydd i geir: **415**




Troseddu

Llangollen – adroddwyd am 86 o droseddau ym mis Medi 2018

Ffynhonnell: police.uk; cyrchwyd 14.11.2018


Mae'r ffigur hwn y mathau o droseddau yr adroddwyd amdanynt yn Llangollen dros y 12 mis diwethaf o fis Hydref 2017 tan fis Medi 2018. Mae'n amlwg bod nifer y troseddau yr adroddwyd amdanynt sy'n ymwneud â 'thrais a throseddau rhyw' ac 'ymddygiad gwrthgymdeithasol' yn llawer uwch na phob math arall.

Cymhariaeth o'r mathau o drosedd yn yr ardal hon rhwng Hydref 2017 a Medi 2018



Ffynhonnell: police.uk; cyrchwyd 14.11.2018

Cymhariaeth o'r canlyniadau yn yr ardal hon rhwng Hydref 2017 a Medi 2018



Ffynhonnell: police.uk; cyrchwyd 14.11.2018

Mae'r ffigur hwn ganlyniad ymchwiliadau i droseddu yn Llangollen ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref 2017 a mis Medi 2018. Yn y rhan fwyaf o'r achosion ni fydd camau pellach yn cael eu cymryd yn eu herbyn. Dim ond 7% o'r achosion a gyrhaeddodd y llys.

Beth ddylid canolbwyntio arno ar gyfer Llangollen?

- Cynyddu nifer y twristiaid gydol y flwyddyn, yn enwedig ym misoedd y Gaeaf;
- Byddai ffyrntiau siopau unigol yn y dref yn elwa o waith i'w gwella;
- Osgoi effeithiau andwyol ar yr amgylchedd naturiol a lleoliad y dref.

Manylion cysylltu:

Cynllunio Strategol a Thai
Cyngor Sir Ddinbych
Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
Caledfryn, Dinbych
Ffôn: 01824 706916
E-bost: poliscynllunio@sirddinbych.gov.uk
Gwefan: www.sirddinbych.gov.uk




Prestatyn



Prestatyn - Map o ganol y dref

Cyflwyniad

Tref glan môr sy'n boblogaidd â thwristiaid yw Prestatyn. Mae'n enwog am ei thraethau a'i pharciau gwyliau i deuluoedd. Roedd poblogaeth amcangyfrifedig yr ardal yn 16,445 ar 30ain Mehefin 2017. Yn gyflym, mae Prestatyn wedi dod yn brif ganolfan adwerthu ar gyfer Sir Ddinbych gyda nifer o frandiau adwerthu'r stryd fawr yn symud i mewn i 'Barc Prestatyn' neu i'r cyffiniau.



Ystadegau economaidd-gymdeithasol

- Roedd nifer y bobl 3 oed a drosodd a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn yr ardal yn 2011 yn oddeutu 2,283. Mae hyn yn cyfateb i 14.3% o'r boblogaeth 3 oed a drosodd.
- Mae canran y bobl oedran gweithio sy'n hawlio budd-daliadau yn 13% ((Tach 2016 (Chtr)).
- Adroddodd oddeutu 72.2% o'r ymatebwyr i Gyfrifiad 2011 yn yr ardal nad oedd eu hiechyd yn cyfyngu ar eu gweithgareddau dydd i ddydd.

Nifer yr Ymwelwyr Misol ac Arwyddnod y Dref

Arwyddnod: Gwyliau;


Beth mae hyn yn ei olygu: Yn cynnig profiadau i dwristiaid ac ymwelwyr dydd;

Angor: Glan môr/ arfordir, tirlun;

Dylai'r strategaethau ganolbwyntio ar ddenu ymwelwyr gydol y flwyddyn.

Ffigur: Nifer cyfartalog misol yr ymwelwyr fesul mis (2016 & 2017)

Nifer cyfartalog yr ymwelwyr fesul mis



Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd, Bygythiadau (acronym: SWOT)

Defnyddir dadansoddiadau SWOT i ganfod cryfderau, gwendidau, cyfleoedd, bygythiadau mewn busnes neu sefydliad, gan gynnwys cydran ofodol, gyda'r nod o sicrhau newid neu dwf.

Cryfderau

- Parc adwerthu sydd wedi hen sefydlu yn y dref;
- Amrywiol gyfleusterau lleol megis sinema a gerddi gwyrdd;
- Amgylchedd naturiol: traeth, Bryniau Clwyd; a
- Chyrchfan boblogaidd i dwristiaid.

Gwendidau

- Prinder lletyau amrywiol, parciau carafanau sydd i'w gweld fwyaf.

Cyfleoedd

- Canolbwyntio ar gynyddu gwahanol fathau o letyau yng nghanol y dref; ac
- Ychwanegu at ganol y dref atyniadau newydd sy'n darparu ar gyfer pobl o bob oed.


Bygythiadau

- Cystadleuaeth oddi wrth drefi glan môr eraill ar hyd arfordir Gogledd Cymru.

Dadansoddiad Adwerthu

Cofnododd yr arolwg blyneddol gyfanswm o 187 o unedau yng nghanol tref Prestatyn, o'r rhain mae 55 o unedau (29%) at ddefnydd Cymharol (adwerthu), 14 o unedau (8%) at ddefnydd Cyfleus (adwerthu), 72 o unedau (39%) at ddefnydd Gwasanaethau, 8 o unedau (4%) at ddefnydd preswyl, ac mae 15 o unedau (8%) yn wag. Mae'r rhaniad yn addas i Prestatyn, gan gynnig gwasanaethau a siopa cymharol ar gyfer ymwelwyr a thrigolion.


Prestatyn Rhaniad Manwerthu Canol y Dref



Eiddo gwag

Mae 6 eiddo rhydd-ddaliad ar y farchnad ym Mhrestatyn, gyda thri o'r rheini wedi'u gwerthu'n ddiweddar. Y pris cyfartalog am droedfedd sgwâr ydy £187.41, ac mae'r dyddiau ar y farchnad yn amrywio o 1902 i ond 13. Mae 3 eiddo ar brydles ar gael ar hyn o bryd, ac maent yn newydd i'r farchnad. Y pris cyfartalog am droedfedd sgwâr ydy £19.94.

Ffigur: Unedau Gwag Prestatyn




Hygyrchedd

Gwasanaethau bysys sy'n rhedeg drwy ganol y dref: **15**;
Arosfannau bysys o fewn pellter cerdded: **29**;
Gorsaf Drenau: **1**;
Gorsaf Fysys: **1**

Mae Llwybr Beicio Cenedlaethol rhif 5 yn rhedeg drwy Brestatyn. Mae'n cysylltu Caergybi â Reading. Ceir hefyd lwybr cerdded a beicio lleol i gyfeiriad Meliden a Dyserth.

Nifer y meysydd parcio ger canol y dref: **9**;
Nifer y llefydd i geir: **1423**




Troseddu

Prestatyn – adroddwyd am 131 o droseddau ym mis Medi 2018

Ffynhonnell: police.uk;
cyrchwyd 14.11.2018


Mae'r ffigur hwn y mathau o droseddau yr adroddwyd amdanynt ym Mhrestatyn dros y 12 mis diwethaf o fis Hydref 2017 tan fis Medi 2018. Mae'n amlwg bod nifer y troseddau yr adroddwyd amdanynt sy'n ymwneud â 'Difrod troseddol a llosgi bwriadol' yn uwch nag mewn trefi eraill.

Cymhariaeth o'r mathau o drosedd yn yr ardal hon rhwng Hydref 2017 a Medi 2018



Ffynhonnell: police.uk; cyrchwyd 14.11.2018

Cymhariaeth o'r canlyniadau yn yr ardal hon rhwng Hydref 2017 a Medi 2018



Ffynhonnell: police.uk; cyrchwyd 14.11.2018

Mae'r ffigur hwn ganlyniad ymchwiliadau i droseddu ym Mhrestatyn ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref 2017 a mis Medi 2018. Gyda'r rhan fwyaf o achosion mae'r ymchwiliad yn mynd rhagddo neu ni fydd camau pellach yn cael eu cymryd gydag ond 8% yn cyrraedd y llys.

Beth ddylid canolbwyntio arno ar gyfer Prestatyn?

- Ehangu'r arlwy ar gyfer y ddemograffeg iau;
- Gofalu am y twristiaid ond peidio ag esgeuluso anghenion y trigolion lleol; a
- Hybu glan y môr a'r amgylchedd naturiol.

Manylion cysylltu:

Cynllunio Strategol a Thai
 Cyngor Sir Ddinbych
 Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
 Caledfryn, Dinbych
 Ffôn: 01824 706916
 E-bost: poliscynllunio@sirddinbych.gov.uk
 Gwefan: www.sirddinbych.gov.uk



Rhuddlan

Rhuddlan - Map o ganol y dref

Cyflwyniad

Tref fechan uwch ben afon Clwyd yng Ngogledd Sir Ddinbych yw Rhuddlan. Roedd poblogaeth amcangyfrifedig yr ardal yn 4,152 ar 30ain Mehefin 2017. Mae'n enwog am adfeilion y castell a adeiladwyd gan Frenin Edward I yn y 1200au. Cyn hynny, roedd yn lleoliad i un o seddi'r llywodraeth ac yma oedd prif dref Gwynedd. Mae stryd fawr fechan yn cynnig darpariaeth dda i'r boblogaeth leol, gydag amrywiaeth o siopau annibynnol, gwasanaethau a thafarndai.

Ystadegau economaidd-gymdeithasol

- Roedd nifer y bobl 3 oed a drosodd a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn yr ardal yn 2011 yn oddeutu 804. Mae hyn yn cyfateb i 19.4% o'r boblogaeth 3 oed a drosodd.
- Mae canran y bobl oedran gweithio sy'n hawlio budd-daliadau yn 10.4% ((Tach 2016 (Chtr)).
- Adroddodd oddeutu 77.7% o'r ymatebwyr i Gyfrifiad 2011 yn yr ardal nad oedd eu hiechyd yn cyfyngu ar eu gweithgareddau dydd i ddydd.


Nifer yr Ymwelwyr Misol ac Arwyddnod y Dref

Arwyddnod: Aml-swyddogaethol;

Beth mae hyn yn ei olygu: Yn cynnig cymysgedd o adwerthu, gwasanaethau, digwyddiadau ayb.;


Angor: darparu ar gyfer anghenion adwerthu'r trigolion lleol;

Dylai'r strategaethau ganolbwyntio ar ddenu ymwelwyr gydol y flwyddyn ac ar hygyrchedd y dref.



Ffigur: Nifer cyfartalog misol yr ymwelwyr fesul mis (2016 & 2017)

Nifer cyfartalog yr ymwelwyr fesul mis



Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd, Bygythiadau (acronym: SWOT)

Defnyddir dadansoddiadau SWOT i ganfod cryfderau, gwendidau, cyfleoedd, bygythiadau mewn busnes neu sefydliad, gan gynnwys cydran ofodol, gyda'r nod o sicrhau newid neu dwf.

Cryfderau

- Amrywiaeth o fusnesau ac adwerthwyr annibynnol ar y stryd fawr;
- Mae'r dref yn edrych yn daclus ac wedi'i chynnal yn dda; ac
- Mae Castell Rhuddlan yn boblogaidd â thwristiaid.

Gwendidau

- Mae angen datblygu 'triongl Rhuddlan' ymhellach i wella'r ymdeimlad o gyrraedd i'r dref.

Cyfleoedd

- Cynyddu nifer y twristiaid drwy wella'r rhwydwaith cerdded a beicio.


Bygythiadau

- Yn agos i'r prif ganolfannau siopa yn Sir Ddinbych; a
- Gallai'r prinder llefydd parcio atal parhïon sydd â diddordeb.

Dadansoddiad Adwerthu

Cofnododd yr arolwg blyneddol gyfanswm o 51 o unedau yng nghanol tref Rhuddlan, o'r rhain mae 11 uned (21%) at ddefnydd cymharol (adwerthu), 3 uned (6%) at ddefnydd cyfleus (adwerthu), 23 o unedau (45%) at ddefnydd gwasanaethau, 6 uned (12%) at ddefnydd preswyl, ac mae 4 uned (8%) yn wag. Ceir unedau cymharol a chyfleus o bob tu'r dref.


Rhuddlan Rhaniad Manwerthu Canol y Dref



Eiddo gwag

Nid oes dim un eiddo ar werth nac ar brydles yn Rhuddlan ar hyn o bryd, ac ystyried y nifer fechan o unedau gwag nid yw hyn yn syndod.

Ffigur: Eiddo Gwag Rhuddlan




Hygyrchedd

Gwasanaethau bysys sy'n rhedeg drwy ganol y dref: **5**;
Arosfannau bysys o fewn pellter cerdded: **8**;

Bydd Llwybr Beicio Cenedlaethol rhif 84 yn cysylltu'r Rhyl â Chroesoswallt, mae'r darn o amgylch Rhuddlan eisoes wedi'i gwblhau.

Nifer y meysydd parcio ger canol y dref: **2**;
Nifer y llefydd i geir: **57**




Troseddu

Rhuddlan – adroddwyd am 34 o droseddau ym mis Medi 2018

Ffynhonnell: police.uk;
cyrchwyd 14.11.2018


Mae'r ffigur hwn y mathau o droseddau yr adroddwyd amdanynt yn Rhuddlan dros y 12 mis diwethaf o fis Hydref 2017 tan fis Medi 2018. Mae'n amlwg bod nifer y troseddau yr adroddwyd amdanynt sy'n ymwneud â 'thrais a throseddau rhyw' yn llawer uwch na phob math arall.

Cymhariaeth o'r mathau o drosedd yn yr ardal hon rhwng Hydref 2017 a Medi 2018



Ffynhonnell: police.uk; cyrchwyd 14.11.2018

Cymhariaeth o'r canlyniadau yn yr ardal hon rhwng Hydref 2017 a Medi 2018



Ffynhonnell: police.uk; cyrchwyd 14.11.2018

Mae'r ffigur hwn ganlyniad ymchwiliadau i droseddu yn Rhuddlan ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref 2017 a mis Medi 2018. Gyda'r rhan fwyaf o achosion mae'r ymchwiliad yn mynd rhagddo neu ni fydd camau pellach yn cael eu cymryd.

Beth ddylid canolbwyntio arno ar gyfer Rhuddlan?

- Parhau i wasanaethu'r trigolion lleol â stryd fawr annibynnol, amrywiol, a chysylltiadau da â threfi a pharciau adwerthu cyfagos;
- Cynnal cyfradd unedau gwag isel ar y Stryd Fawr; a
- Cynyddu ymwybyddiaeth o atyniadau lleol i gynyddu nifer twristiaid.

Manylion cysylltu:

Cynllunio Strategol a Thai
Cyngor Sir Ddinbych
Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
Caledfryn, Dinbych
Ffôn: 01824 706916
E-bost: poliscynllunio@sirddinbych.gov.uk
Gwefan: www.sirddinbych.gov.uk



Y Rhyl

Cyflwyniad

Tref glan môr ar arfordir Gogledd-ddwyrain Cymru a saif i'r dwyrain o afon Clwyd yw'r Rhyl. Mae rhannau mawr o ganol y dref mewn dwy Ardal Gadwraeth ddynodedig. Roedd poblogaeth amcangyfrifedig yr ardal yn 25,508 ar 30ain Mehefin 2017. Mae nifer o brosiectau adfywio yn mynd rhagddynt yn y dref, gan gynnwys gwaith amrywiol ar hyd y promenâd a chaiff uwchgynllun ei lunio ar gyfer canol y dref gan gynnwys popeth o briffyrdd i dir y cyhoedd a phreswyl.

Ystadegau economaidd-gymdeithasol

- Roedd nifer y bobl 3 oed a drosodd a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn yr ardal yn 2011 yn oddeutu 3,343. Mae hyn yn cyfateb i 14.15% o'r boblogaeth 3 oed a drosodd.
- Mae canran y bobl oedran gweithio sy'n hawlio budd-daliadau yn 25.2% ((Tach 2016 (Chtr)).
- Adroddodd oddeutu 72.7% o'r ymatebwyr i Gyfrifiad 2011 yn yr ardal nad oedd eu hiechyd yn cyfyngu ar eu gweithgareddau dydd i ddydd.

Nifer yr Ymwelwyr Misol ac Arwyddnod y Dref


Arwyddnod: Mae nifer yr ymwelwyr yn dynodi 'Arbenigedd' ond caiff y dref ei hystyried fel cyrchfan lan y môr – 'gwyliau';

Beth mae hyn yn ei olygu: Yn gwasanaethu trigolion lleol a thwristiaid, canol y dref yn cynnig amser ymdroi;

Angor: darparu ar gyfer anghenion adwerthu trigolion lleol, glan môr;


Dylai'r strategaethau ganolbwyntio ar warchod a hyrwyddo hunaniaeth y dref er mwyn datblygu cadernid mewn cystadleuaeth â threfi glan môr eraill yng Ngogledd Cymru.

Y Rhyl - Map o ganol y dref



Ffigur: Nifer cyfartalog misol yr ymwelwyr fesul mis (2016 & 2017)

Nifer cyfartalog yr ymwelwyr fesul mis



Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd, Bygythiadau (acronym: SWOT)

Defnyddir dadansoddiadau SWOT i ganfod cryfderau, gwendidau, cyfleoedd, bygythiadau mewn busnes neu sefydliad, gan gynnwys cydran ofodol, gyda'r nod o sicrhau newid neu dwf.

Cryfderau

- Nifer o ardaloedd cadwraeth yn y dref gyda'r nod o warchod yr amgylchedd adeiledig a threftadaeth;
- Yr amgylchedd naturiol: glan môr â harbwr;
- Amrywiol strategaethau adfywio; a
- Lleoliad da a chysylltiadau ffyrdd.

Gwendidau

- Nid yw blaen y siopau yng nghanol y dref yn gweddu i'r adeiladau, ac yn aml nid ydynt yn parchu'r ardal gadwraeth;
- Prinder mannau agored a gwyrdd yng nghanol y dref; a
- Nifer fawr o unedau gwag.

Cyfleoedd

- Defnyddio'r momentwm o'r gweithgaredd adfywio yn yr uwchgynllun i ysgogi gweithgareddau eraill;
- Canfod hunaniaeth unigryw i'r Rhyl fel ei bod yn dod yn gyrchfan boblogaidd i dwristiaid drachefn;
- Gwarchod yr amgylchedd naturiol ac adeiledig; a
- Chynnwys y boblogaeth leol yn yr ymdrechion adfywio er mwyn eu hannog i hawlio perchnogaeth drostynt.


Bygythiadau

- Bod yr Uwchgynllun yn colli momentwm a bod prosiectau'n cael eu gadael heb eu gorffen;
- Mae edrychiad y stryd fawr yn anffafriol i ddenu buddsoddwyr posibl mewn datblygiadau tai sydd wir eu hangen; ac
- Mae'n agos i gyrchfannau twristiaeth poblogaidd eraill.

Dadansoddiad Adwerthu

Cofnododd yr arolwg blynyddol gyfanswm o 379 o unedau yng nghanol tref y Rhyl, o'r rhain mae 110 o unedau (29%) at ddefnydd Cymharol (adwerthu), 18 o unedau (5%) at ddefnydd Cyfleus (adwerthu), 118 o unedau (31%) at ddefnydd Gwasanaethau, 27 o unedau (7%) at ddefnydd preswyl, ac mae 78 o unedau (21%) yn wag. Unedau Gwasanaethau a Chymharol sydd i'w gweld fwyaf yng nghanol y dref.


Rhyl Town Centre Retail Split



Eiddo gwag

Gwerthwyd 11 o unedau rhydd-ddaliad yn y Rhyl yn y chwarter diwethaf, am ffigur cyfartalog o £150 y droedfedd sgwâr. Mae 9 yn dal ar werth, gyda ffigur cyfartalog o £140 y droedfedd sgwâr. Mae ffigur cyfartalog y 'dyddiau ar y farchnad' yn 192. Gwerthwyd 13 eiddo ar brydles y chwarter hwn, am bris cyfartalog o £11.62 y droedfedd sgwâr ac mae 31 arall yn dal ar werth.

Ffigur: Eiddo gwag y Rhyl




Hygyrchedd

Gwasanaethau bysys sy'n rhedeg drwy ganol y dref: **28**;
Arosfannau bysys o fewn pellter cerdded: **78**;
Gorsaf Drenau: **1**;
Gorsaf Fysys: **1**

Bydd Llwybr Beicio Cenedlaethol rhif 84 yn cysylltu'r Rhyl â Chroesoswallt, mae'r dan o amgylch y Rhyl a Rhuddlan eisoes wedi'i gwblhau. Mae Llwybr Beicio Cenedlaethol rhif 5 hefyd yn rhedeg drwy'r Rhyl. Mae'n cysylltu Caergybi â Reading.

Nifer y meysydd parcio ger canol y dref: **10**;
Nifer y llefydd i geir: **1720**




Troseddau

Y Rhyl – adroddwyd am 469 o droseddau ym mis Medi 2018

Ffynhonnell: police.uk;
cyrchwyd 14.11.2018


Mae'r ffigur hwn y mathau o droseddau yr adroddwyd amdanynt yn y Rhyl dros y 12 mis diwethaf o fis Hydref 2017 tan fis Medi 2018. Mae'n amlwg bod nifer y troseddau yr adroddwyd amdanynt sy'n ymwneud â 'thrais a throseddau rhyw' ac 'ymddygiad gwrthgymdeithasol' yn llawer uwch na phob math arall.

Cymhariaeth o'r mathau o drosedd yn yr ardal hon rhwng Hydref 2017 a Medi 2018



Ffynhonnell: police.uk; cyrchwyd 14.11.2018

Cymhariaeth o'r canlyniadau yn yr ardal hon rhwng Hydref 2017 a Medi 2018



Ffynhonnell: police.uk; cyrchwyd 14.11.2018

Mae'r ffigur ganlyniad ymchwiliadau i droseddu yn y Rhyl ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref 2017 a mis Medi 2018. Gyda'r rhan fwyaf o achosion mae'r ymchwiliad yn mynd rhagddo neu ni fydd camau pellach yn cael eu cymryd.

Beth ddylid canolbwyntio arno ar gyfer y Rhyl?

- Canfod hunaniaeth a sefyllfa unigryw i'r Rhyl;
- Hyrwyddo a gwarchod yr amgylchedd adeiledig a naturiol;
- Denu mwy o dwristiaid ar adegau prysur er mwyn dod yn dref 'wyliau' eto; a
- Gweithio â'r boblogaeth leol a'i chefnogi â'r gweithgareddau adfywio.

Manylion cysylltu:

Cynllunio Strategol a Thai
Cyngor Sir Ddinbych
Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
Caledfryn, Dinbych
Ffôn: 01824 706916
E-bost: polisicynllunio@sirddinbych.gov.uk
Gwefan: www.sirddinbych.gov.uk




Rhuthun



Cyflwyniad

Rhuthun yw prif dref Sir Ddinbych, ac mae yno Gastell o'r drydedd ganrif ar ddeg, hen Garchar sydd yn awr yn amgueddfa a llu o atyniadau eraill; gan gynnwys gerddi a chanolfan grefftau. Roedd poblogaeth amcangyfrifedig yr ardal yn 5,666 ar 30ain Mehefin 2017. Mae canol y dref yn llawn o fusnesau annibynnol ac mae'n un o'r trefi mwyaf ffyniannus yn y Sir. Mae llawer o'r rhan hynaf o'r dref ar fryn, tra bod llawer o'r rhannau newydd ar orliferdir Afon Clwyd.

Rhuthun - Map o ganol y dref



Ystadegau economaidd-gymdeithasol

- Roedd nifer y bobl 3 oed a drosodd a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn yr ardal yn 2011 yn oddeutu 2,195. Mae hyn yn cyfateb i 41.9% o'r boblogaeth 3 oed a drosodd.
- Mae canran y bobl oedran gweithio sy'n hawlio budd-daliadau yn 10.8% ((Tach 2016 (Chtr)).
- Adroddodd oddeutu 81% o'r ymatebwyr i Gyfrifiad 2011 yn yr ardal nad oedd eu hiechyd yn cyfyngu ar eu gweithgareddau dydd i ddydd.

Nifer yr Ymwelwyr Misol ac Arwyddnod y Dref

Arwyddnod: Aml-swyddogaethol;


Beth mae hyn yn ei olygu: Yn cynnig cymysgedd cyfleus o unedau adwerthu, gwasanaethau, digwyddiadau ayb.;

Angor: angorau arferol bob dydd (gwaith, cludiant, ayb.);

Dylai'r strategaethau ganolbwyntio ar wella mynediad, dibynadwyedd, cysylltedd ac ehangu amrywiaeth teithiau cysylltiedig.

Ffigur: Nifer cyfartalog misol yr ymwelwyr fesul mis (2016 & 2017)

Nifer cyfartalog yr ymwelwyr fesul mis



Nifer cyfartalog misol yr ymwelwyr â'r 8 canol tref

Nifer cyfartalog misol yr ymwelwyr â chanol tref Rhuthun

Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd, Bygythiadau (acronym: SWOT)

Defnyddir dadansoddiadau SWOT i ganfod cryfderau, gwendidau, cyfleoedd, bygythiadau mewn busnes neu sefydliad, gan gynnwys cydran ofodol, gyda'r nod o sicrhau newid neu dwf.

Cryfderau

- Tref ffyniannau yn Sir Ddinbych;
- Dewis da o fusnesau annibynnol/siopau;
- Amgylchedd adeiledig;
- Yn hawdd symud drwy ganol y dref;
- Lleoliad a Thirlun; ac
- Yn agos i Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Gwendidau

- Mae nifer yr ymwelwyr yn syrthio'n aruthrol yn ystod misoedd yr haf; a
- Chanran isel o unedau cyfleus.

Cyfleoedd

- Cynyddu nifer yr ymwelwyr yn ystod misoedd yr haf;
- Darparu mwy o unedau cyfleus i'r boblogaeth leol; a
- Cydweithio ag ardaloedd AHNE eraill i'w gwarchod a'u hyrwyddo.


Bygythiadau

- Gall cynnydd mewn ymwelwyr ddifetha'r amgylchedd naturiol; a
- Chystadleuaeth oddi wrth ganol trefi eraill sydd â gwell arlwy o nwyddau cyfleus.

Dadansoddiad Adwerthu

Cofnododd yr arolwg blynyddol gyfanswm o 178 o unedau yng nghanol tref Rhuthun, o'r rhain mae 46 o unedau (26%) at ddefnydd cymharol (adwerthu), 11 o unedau (6%) at ddefnydd cyfleus (adwerthu), 47 o unedau (26%) at ddefnydd gwasanaethau, 46 o unedau (26%) at ddefnydd preswyl, ac mae 15 o unedau (9%) yn wag.

Rhuthun Rhaniad Manwerthu Canol y Dref




Dadansoddiad Adwerthu (yn parhau)

Unedau Gwasanaethau ac Unedau Cymharol sydd i'w gweld fwyaf yng nghanol y dref. Ceir 46 o unedau preswyl yng nghanol tref Rhuthun, sy'n uchel o gymharu â chanolfannau eraill yn y sir. Bu'r cyfraddau unedau gwag yn gyson dros y deng mlynedd diwethaf.

Eiddo gwag

Nid oes dim eiddo rhydd-ddaliad ar werth, nac wedi'u gwerthu yn y chwarter diwethaf. Mae tri eiddo ar gael ar brydles a chafodd un ei rentu'n ddiweddar. Y pris cyfartalog am droedfedd sgwâr ydy £12.76. Bu'r un a rentwyd yn ddiweddar ar y farchnad am 10 mis.

Ffigur: Unedau gwag Rhuthun




Hygyrchedd

Gwasanaethau bysys sy'n rhedeg drwy ganol y dref: **11**;
Arosfannau bysys o fewn pellter cerdded: **16**;

Ni cheir ar hyn o bryd ddim Llwybrau Beicio Cenedlaethol sy'n cysylltu Rhuthun â'r ardaloedd o'i hamgylch.

Nifer y meysydd parcio ger canol y dref: **8**;
Nifer y llefydd i geir: **427**




Troseddu

Rhuthun – adroddwyd am 27 o droseddau ym mis Medi 2018

Ffynhonnell: police.uk;
cyrchwyd 14.11.2018


Mae'r ffigur hwn y mathau o droseddau yr adroddwyd amdanynt yn Rhuthun dros y 12 mis diwethaf o fis Hydref 2017 tan fis Medi 2018. Mae'n amlwg bod nifer y troseddau yr adroddwyd amdanynt sy'n ymwneud â 'thrais a throseddau rhyw' ac 'ymddygiad gwrthgymdeithasol' yn llawer uwch na mathau eraill.

Cymhariaeth o'r mathau o drosedd yn yr ardal hon rhwng Hydref 2017 a Medi 2018



Ffynhonnell: police.uk; cyrchwyd 14.11.2018

Cymhariaeth o'r canlyniadau yn yr ardal hon rhwng Hydref 2017 a Medi 2018



Ffynhonnell: police.uk; cyrchwyd 14.11.2018

Mae'r ffigur hwn ganlyniad ymchwiliadau i droseddu yn Rhuthun ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref 2017 a mis Medi 2018. Gyda'r rhan fwyaf o achosion mae'r ymchwiliad yn mynd rhagddo neu ni fydd camau pellach yn cael eu cymryd.

Beth ddylid canolbwyntio arno ar gyfer Rhuthun?

- Parhau i wella cyfleustra, hygyrchedd a chysylltedd ar gyfer y boblogaeth leol;
- Gwarchod a gwella'r amgylchedd adeiledig a naturiol; a
- Denu mwy o ymwelwyr gydol y tymhorau.

Manylion cysylltu:

Cynllunio Strategol a Thai
Cyngor Sir Ddinbych
Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
Caledfryn, Dinbych
Ffôn: 01824 706916
E-bost: polisicynllunio@sirddinbych.gov.uk
Gwefan: www.sirddinbych.gov.uk




Llanelwy

Cyflwyniad

Llanelwy yw'r ddinas ail leiaf yn Nheyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Roedd poblogaeth amcangyfrifedig yr ardal yn 3,434 ar 30ain Mehefin 2017. Mae'r ddinas fechan wedi ffynnu dros y degawdau diwethaf, yn sgil agor ffordd yr A55 yn y 1970au ac, yn fwy diweddar, adeiladu'r Parc Busnes sydd wedi denu buddsoddiadau cenedlaethol a rhyngwladol. Stryd fawr fechan ydyw, gyda nifer o eiddo gwag a gall deimlo'n brysur iawn â thraffig ffordd.

Llanelwy - Map o ganol y ddinas



Ystadegau economaidd-gymdeithasol

- Roedd nifer y bobl 3 oed a drosodd a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn yr ardal yn 2011 yn oddeutu 745. Mae hyn yn cyfateb i 22.9% o'r boblogaeth 3 oed a drosodd.
- Mae canran y bobl oedran gweithio sy'n hawlio budd-daliadau yn 11.4% ((Tach 2016 (Chtr)).
- Adroddodd oddeutu 77% o'r ymatebwyr i Gyfrifiad 2011 yn yr ardal nad oedd eu hiechyd yn cyfyngu ar eu gweithgareddau dydd i ddydd.

Nifer yr Ymwelwyr Misol ac Arwyddnod y Dref

Arwyddnod: Arbenigedd/ Aml-swyddogaethol;


Beth mae hyn yn ei olygu: Yn cynnig rhywbeth unigryw ac arbennig. Er enghraifft, Eglwys Gadeiriol Llanelwy;

Angor: angorau arferol bob dydd (gwaith, trafnidiaeth ayb.);

Dylai'r strategaethau ganolbwyntio ar warchod a hyrwyddo hunaniaeth gyda ffocws ar wella hygyrchedd a chysylltedd.

Ffigur: Nifer cyfartalog misol yr ymwelwyr fesul mis (2016 & 2017)

Nifer cyfartalog yr ymwelwyr fesul mis



Nifer cyfartalog misol yr ymwelwyr â'r 8 canol tref

Nifer cyfartalog misol yr ymwelwyr â chanol dinas Llanelli

Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd, Bygythiadau (acronym: SWOT)

Defnyddir dadansoddiadau SWOT i ganfod cryfderau, gwendidau, cyfleoedd, bygythiadau mewn busnes neu sefydliad, gan gynnwys cydran ofodol, gyda'r nod o sicrhau newid neu dwf.

Cryfderau

- Cysylltedd ardderchog ar hyd arfordir Gogledd Cymru drwy gyfrwng cefnffordd yr A55;
- Stryd Fawr fechan; ac
- Amgylchedd hanesyddol: Eglwys Gadeiriol Llanelli.

Gwendidau

- Gall deimlo dan bwysau traffig, gyda cherbydau HGV yn pasio drwy ffyrdd culion; a
- Chanran uchel o unedau gwag.

Cyfleoedd

- Llenwi unedau gwag ag adwerthwyr sydd gwir eu hangen;
- Gwneud i'r dref deimlo'n fwy hygyrch a mwy cyfeillgar i gerddwyr; a
- Cynyddu nifer yr ymwelwyr yn y misoedd prysur.


Bygythiadau

- Ni all maint y dref gymryd llawer mwy o ddatblygu;
- Gall gael ei ystyried fel lle i 'basio trwyddo'; a
- Chanolfan siop 'Tweedmill' y tu allan i'r ddinas.

Dadansoddiad Adwerthu

Cofnododd yr arolwg blynyddol gyfanswm o 56 o unedau yng nghanol tref Llanelli, o'r rhain mae 3 uned (6%) at ddefnydd cymharol (adwerthu), 4 uned (8%) at ddefnydd cyfleur (adwerthu), 18 uned (32%) at ddefnydd gwasanaethau, 15 uned (27%) at ddefnydd preswyl, ac mae 8 uned (14%) yn wag. Mae gan Llanelli hefyd nifer gymharol fawr o unedau preswyl. Unedau gwasanaethau yw'r rhan fwyaf o'r unedau ac mae nifer yr unedau adwerthu nwyddau cymharol a chyfleur yn isel iawn.


Llanelli Rhaniad Manwerthu Canol Tref



Eiddo gwag

Mae un eiddo prydles ar gael yn Llanelwy am £7,000 y flwyddyn, sef £4.01 y droedfedd sgwâr. Ni chafwyd dim gwerthiannau rhydd-ddaliad yn y chwarter diwethaf.

Ffigur: Eiddo Gwag Llanelwy




Hygyrchedd

Gwasanaethau bysys sy'n rhedeg drwy ganol y ddinas: **7**;
Arosfannau bysys o fewn pellter cerdded: **11**

Bydd Llwybr Beicio Cenedlaethol rhif 84 yn cysylltu'r Rhyl â Chroesoswallt, mae'r darn o'r Rhyl i Llanelwy eisoes wedi'i gwblhau.

Nifer y meysydd parcio ger canol y dref: **1**;
Nifer y llefydd i geir: **27**




Troseddu

Llanelwy – adroddwyd am 29 o droseddau ym mis Medi 2018

Ffynhonnell: police.uk;
cyrchwyd 14.11.2018


Mae'r ffigur hwn y mathau o droseddau yr adroddwyd amdanynt yn Llanellwy dros y 12 mis diwethaf o fis Hydref 2017 tan fis Medi 2018. Mae'n amlwg bod nifer y troseddau yr adroddwyd amdanynt sy'n ymwneud ag 'ymddygiad gwrthgymdeithasol' yn llawer uwch na mathau eraill.

Cymhariaeth o'r mathau o drosedd yn yr ardal hon rhwng Hydref 2017 a Medi 2018



Ffynhonnell: police.uk; cyrchwyd 14.11.2018

Cymhariaeth o'r canlyniadau yn yr ardal hon rhwng Hydref 2017 a Medi 2018



Ffynhonnell: police.uk; cyrchwyd 14.11.2018


Mae'r ffigur hwn ganlyniad ymchwiliadau i droseddu yn Llanellwy ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref 2017 a mis Medi 2018. Gyda'r rhan fwyaf o achosion mae'r ymchwiliad yn mynd rhagddo neu ni fydd camau pellach yn cael eu cymryd.

Beth ddylid canolbwyntio arno ar gyfer Llanellwy?

- Gwarchod a hyrwyddo hunaniaeth 'dinas fechan' i ddenu mwy o ymwelwyr;
- Gwella hygyrchedd i'r trigolion; a
- Gwneud y stryd fawr yn fwy cyfeillgar i gerddwyr.

Manylion cysylltu:

Cynllunio Strategol a Thai
Cyngor Sir Ddinbych
Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
Caledfryn, Dinbych
Ffôn: 01824 706916
E-bost: poliscynllunio@sirddinbych.gov.uk
Gwefan: www.sirddinbych.gov.uk



AUCTION
Pugh
0345 505 1200
www.pugh-auctions.com

WH
CHROME
YOURS

REST
sir ddinbych
denbighshire
County Council

Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council

